

11.09.23

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Rwy'n teimlo ei bod yn amser priodol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol i atgoffa rhieni o'r trefniadau iechyd a diogelwch allweddol pan fyddwch yn gollwng ac yn casglu eich plentyn o'r ysgol.

TREFNIADAU CYRRAEDD YN Y BORE:

- Gofynnwn i rieni / gwarcheidwaid a holl ddefnyddwyr y safle i lynu at y disgwyliad o beidio â gyrru'n gyflymach na 10mya ar safle'r ysgol (gan gynnwys yr heol i fyny at yr ysgol oddi ar Heol Gwrosydd) ar bob adeg.
- Mae rhwystrau diogelwch wedi eu gosod ar hyd y llwybr gerdded i wahanu cerddwyr o'r traffig ar y brif lôn i'r ysgol. Mae'n allweddol bwysig bod y disgyblion yn aros ar y palmant ar bob adeg.
- Bydd angen i ddisgyblion, sydd yn cerdded ar hyd y brif lôn, fod yn ofalus wrth groesi'r ddwy fynedfa i feysydd parcio'r ganolfan hamdden, fel sydd yn wir nawr.
- Mi fydd staff ar ddyletswydd i gefnogi diogelwch ein disgyblion.

Bysys:

- Bydd y disgyblion sydd yn teithio ar gludiant ysgol (bysys neu dacs) yn cael eu gollwng yn y bae bysys newydd ac yn cerdded ar lwybr diogel, ar y palmant, hyd at yr ysgol.

Cerdded:

- Bydd disgyblion sydd yn cerdded yn dilyn yr un drefn ag arfer wrth gerdded ar lwybr diogel, ar y palmant, hyd at yr ysgol. (Bydd y giât gefn hefyd yn parhau ar agor i ddisgyblion sydd am gael mynediad oddi ar ochr uchaf Heol Cadifor.)

Car:

- Bydd disgyblion sydd yn derbyn lifft mewn car yn parhau i gael eu gollwng wrth ochr y palmant y tu allan i ffreutur yr ysgol.
- Mae gwagleoedd penodol yn y rhwystrau y tu allan i ffreutur yr ysgol er mwyn bod lle gan rieni/warcheidwaid i ollwng eu plentyn/plant yn ddiogel. Dyma'r unig lefydd dynodedig ar gyfer gollwng eich plentyn yn ddiogel.
- Sicrhewch fod digon o le gan eich plentyn/plant i agor drws y car yn ddiogel yn yr ardal yma.
- Gofynnwn yn garedig i rieni i beidio ag oedi am yn fwy nag sydd angen er mwyn gollwng eu plentyn/plant yn ddiogel, er mwyn sicrhau llif diogel i'r traffig.

TREFNIADAU GADAEL AR DDIWEDD Y DYDD:

- Gyda hyd at 900 o ddisgyblion yn gadael y safle ar hyd y brif lôn i'r ysgol ar yr un adeg, mi fydd rhaid i ni atal unrhyw symudiad gan gerbydau ar y safle yn ystod y cyfnod yma i sicrhau diogelwch ein disgyblion.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



- Byddwn yn cau'r rhwystr cerbydau rhwng 15:00 - 15:20. Ni fydd modd i gerbydau symud rhwng yr amseroedd hyn yn ystod tymor yr ysgol, gan gynnwys ym meysydd parcio'r Ganolfan Hamdden.
- Gofynnwn i rieni/gwarcheidwaid a holl ddefnyddwyr y safle i lynu at y disgwyliad o beidio â gyrru'n gyflymach na 10mya ar safle'r ysgol ar bob adeg.
- **Gofynnwn i bob rhiant ymatal rhag parcio ar y brif lon i'r ysgol, cyn y rhwystr. Mae symudiadau traffig (ceir yn symud yn ôl ac yn troi) yn yr ardal hon yn peri risg uwch i ddiogelwch ein disgyblion, wrth i lawer groesi'r lon wrth iddynt gerdded adref.**
- Mae rhwystrau diogelwch wedi eu gosod ar hyd y llwybr cerdded i wahanu cerddwyr o'r traffig ar y brif lôn i'r ysgol. Mae'n allweddol bwysig bod disgyblion yn aros ar y palmant ar bob adeg.
- Bydd angen i ddisgyblion, sydd yn cerdded ar hyd y brif lôn, fod yn ofalus wrth groesi'r ddwy fynedfa i feysydd parcio'r Ganolfan Hamdden, fel sy'n wir nawr.
- Mi fydd staff ar ddyletswydd i gefnogi diogelwch ein disgyblion.

Bysys:

- Bydd y disgyblion sydd yn teithio ar gludiant ysgol (bysys neu dacs) yn cerdded ar lwybr diogel, ar y palmant, hyd at y bae bysys.
- **Er bod 10 munud yn ddigon o amser i gyrraedd y bae bysys, mae'n bwysig nad yw disgyblion yn oedi ar ddiwedd y dydd, gan fydd y bysys yn parhau i adael am 15:20.**

Cerdded:

- Bydd disgyblion sydd yn cerdded yn dilyn yr un drefn ag arfer wrth gerdded ar lwybr diogel, ar y palmant, wrth adael yr ysgol. (Bydd y giat gefn hefyd yn parhau ar agor i ddisgyblion sydd am gael mynediad i ochr uchaf Heol Cadifor.)

Car:

- Bydd dal modd casglu eich plentyn/plant i'w cludo adref mewn car.
- Gofynnwn i chi ddefnyddio'r ardal barcio saethben er mwyn casglu eich plentyn/plant ac nid i ddefnyddio meysydd parcio'r Ganolfan Hamdden.
- Fel nodwyd uchod, ni fydd modd i unrhyw gerbyd symud ar y safle rhwng 15:00 - 15:20.
- Gofynnwn yn garedig i bob rhiant / gwarcheidwad i barchu'r mesurau iechyd a diogelwch yma er lles pob un o ddisgyblion yr ysgol.

Os oes unrhyw gwestiynau pellach gennych am y trefniadau uchod, peidiwch ag oedi cyn cysylltu.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWRYR
MEWN POBL

Aur

